# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 **Cofnodion Drafft o Gabinet Mehefin**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 20202 fel rhai cywir.

4 **Canlyniad Refeniw 2019/20**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi manylion am sefyllfa alldro terfynol yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol 2019/20 oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2020.

Cadarnhaodd yr adroddiad na ddioddefodd 2019/20 yn sylweddol oherwydd pandemig Covid-19 gan na ddaeth y cyfnod clo i rym tan ddiwedd Mawrth, pan oedd y flwyddyn ariannol yn cau, felly ni fu fawr o effaith ar gyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol.

O ran yr alldro, gellid gweld y flwyddyn ariannol fel deilliant cadarnhaol gan i'r Cyngor reoli eu cyllideb gyffredinol, a dangosodd yr alldro refeniw danwariant cyffredinol o £2 miliwn. Gofynnir i'r Cabinet felly gymeradwyo'r modd y defnyddir y tanwariant hwn.

Symudiadau allweddol a phrif symiau sy'n wahanol
Bu nifer o symudiadau allweddol rhwng y sefyllfa yr adroddwyd amdani yn sefyllfa fonitro mis Ionawr. Yn gyffredinol, cynyddodd y tanwariant o £377k, yn bennaf oherwydd i orwariant meysydd gwasanaeth ostwng yn benodol ym meysydd gofal cymdeithasol oedd yn cael eu harwain gan y galw. Fodd bynnag, adroddwyd am danwariant is ar draws meysydd heb fod yn rhai gwasanaeth.

O ran y prif symiau sy'n wahanol yr adroddwyd amdanynt yn yr alldro, y neges gyson trwy gydol 2019/20 oedd bod gorwario sylweddol mewn rhai meysydd allweddol, ac yr oedd hyn yn wir ar derfyn y flwyddyn. Y tri maes allweddol o orwario a gyfrannodd £2.1m o orwariant oedd Gofal Cymdeithasol Cymunedol Oedolion - £955k, maethu annibynnol plant - £598k a lleoliadau allsirol plant - £553k.

Llwyddodd y Cyngor i liniaru'r gorwariant trwy ddefnyddio £1.4m o arian wrth gefn a thanwariant ar nifer o feysydd gan gynnwys cyllido cyfalaf, cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a gwarged treth y cyngor.

Yr oedd yn bwysig iawn nodi fod y patrwm hwn o orwario mewn meysydd gwasanaeth wedi digwydd ers rhai blynyddoedd, ac oherwydd y gostyngiad yng nghyllidebau rhai o'r meysydd heb fod yn rhai gwasanaeth, pwysai galwadau ar CGTC a Threth y Cyngor yn deillio o bandemig Covid-19, efallai na all tanwariant heb fod yn ymwneud â gwasanaethau liniaru gorwario yn y dyfodol.

Yr oedd y Pennaeth Cyllid felly yn argymell y dylai'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth osod proses fonitro benodol ar y timau rheoli gofal cymdeithasol i adolygu materion rheoli ariannol yn fanwl.

Sefyllfa'r ysgolion
Yr oedd amrywiadau'r ysgolion yn dod dan arian wrth gefn ym malansau'r ysgolion, felly nid oedd y tanwariant cyffredinol o £2m yn cynnwys sefyllfa'r ysgolion. Yn 2019/20 gorwariodd yr ysgolion £2m, gyda'r sector uwchradd yn gorwario'n sylweddol; golygodd hyn fod cyfanswm arian wrth gefn yr ysgolion wedi cwympo o £3.1m i £1.1m.

Yr oedd y sefyllfa ar lefel ysgolion unigol yn heriol, gyda 67% o ysgolion uwchradd, 12% o ysgolion cynradd a 50% o ysgolion arbennig gyda balans o ddim neu mewn diffyg. Pryder arbennig oedd y sector uwchradd, gyda 5 ysgol wedi gorwario eleni rhwng £175k a £328k, ac yr oedd gan un o'r ysgolion hyn ddiffyg mewn arian wrth gefn o dros £1m. Yr oedd arian wrth gefn yr ysgolion yn debygol o ostwng eto yn 2020/21 oni chymerir camau i leihau costau, a'r her oedd nad oedd arian wrth gefn i wneud iawn am orwariant ar y lefel hon yn y dyfodol.

Atgoffodd y Pennaeth Cyllid y Cabinet y byddai angen i gyllidebau eraill ac arian wrth gefn y Cyngor, lle nad oeddent wedi eu hymrwymo neu eu neilltuo, gynorthwyo/ategu arian wrth gefn yr ysgolion petaent yn gyffredinol yn mynd i falans 'dim' a negyddol sylweddol, ac nad oedd cynllun i adfer hyn ymhen amser rhesymol.

Blaenoriaeth allweddol fyddai gweld beth oedd sefyllfa'r arian wrth gefn a chynlluniau ariannol tymor canol fydd yn ymgorffori 'cynlluniau adfer diffyg' i asesu'r taflwybr tymor hwy i arian wrth gefn yr ysgolion. Argymhellodd y Pennaeth Cyllid eto y dylai Uwch-Dîm Arweinyddiaeth Cyngor osod proses fonitro benodol ar y timau rheoli Addysg i adolygu materion rheoli ariannol yn fanwl.

Defnyddio'r tanwariant a'r arian wrth gefn
Yn dilyn y trosolwg hwn o'r alldro, bydd angen i'r Cabinet benderfynu sut i ddefnyddio'r £2m o danwariant. O'r £255k hwn, gofynnodd y Meysydd Gwasanaeth am gymeradwyo arian newydd wrth gefn, fel y manylir ym mharagraff 5.4 yr adroddiad. Gofynnwyd am ddefnyddio'r £1.8m oedd weddill ar gyfer y meysydd a ganlyn:
 £400k tuag at gostau gweithredu uwchraddio'r system ariannol newydd oedd ei angen i sicrhau llwyfan ariannol cynaliadwy a
? £1.4m i'r arian sydd wrth gefn eisoes yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, i helpu i gefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a heriau cyllidebol yn y dyfodol, fydd yn allweddol yn yr hinsawdd bresennol.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi a chymeradwyo trosglwyddo'r holl arian wrth gefn yn yr adran a holl symudiadau'r arian wrth gefn y manylir arnynt yn atodiad 5 yr adroddiad.

Balans yr arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn dilyn y cymeradwyo uchod oedd £87m, gostyngiad o £103m ar 31 Mawrth 2020. Yr oedd cryn symudiadau yn hyn, wedi eu crynhoi yn yr adroddiad ym mharagraff 5.2.

O ran y balansau sydd weddill, arhosodd yr arian cyffredinol wrth gefn yr un fath, sef £6.5m, ac yr oedd yn bwysig nodi fod cryn swm o'r balans hwn, £42m, ar gyfer cynlluniau Menter Cyllid Preifat, grantiau a dalwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru fyddai'n cael eu defnyddio dros weddill einioes y cynlluniau hyn.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Soniodd y Cynghorydd Cockeram am waith eithriadol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Fferm Windmill yn arbennig, sef datblygiad newydd ac arloesol fyddai'n mynd i'r Pwyllgor Cynllunio dros y misoedd nesaf.

Ategodd y Cynghorydd Giles sylwadau'r Cynghorydd Cockeram am y gwaith yn Fferm Windmill yn ogystal â chanmol ymdrechion y Gwasanaeth Addysg ar fonitro cyllidebau'r ysgolion. Yr oedd y Prif Swyddog Addysg yn cadw llygad ar y gyllideb gyda'r Penaethiaid, ac yr oedd canllawiau newydd ar fin dod i'r ysgolion. Yr oedd tanwariant ar addysg allsirol am fod yr ysgolion wedi cau, yn ogystal â gostyngiad yn nifer y sawl oedd yn cael eu haddysgu gartref. Soniodd y Cynghorydd Giles am waith gwych y Gwasanaethau Addysg, a'u buddsoddiad mewn darpariaeth leol yn ogystal â'u gwaith clodwiw ar waetha'r amgylchiadau presennol.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn pleidleisio a chytuno i'r isod:
- Nodi'r sefyllfa alldro a'r prif amrywiadau am y flwyddyn ariannol
- ? Cymeradwyo'r defnydd o danwariant fel y disgrifiwyd a nodi lefel yr arian cyffredinol wrth gefn a'r hyn a glustnodwyd yn sgil hynny
- ? Cymeradwyo trosglwyddo'r arian wrth gefn a nodwyd yn adran 5
- Nodi sefyllfa alldro'r ysgolion am arian wrth gefn yr ysgolion unigol ac yn eu cyfanrwydd, pryder y PC am y sefyllfa, a nodi, sylwi a chymeradwyo'r camau nesaf fel y'u disgrifiwyd.
- ? Nodi'r meysydd eraill lle mae pwysau ar y gyllideb fel yn adrannau 1 a 2 a nodi, sylwi a chymeradwyo'r camau i reoli'r rhain, yn enwedig i'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth ganolbwyntio mwy ar orwariant y gofal cymdeithasol.

## 5 Canlyniad ac Ychwanegiadau Cyfalaf

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn canolbwyntio ar ddwy ran o'r rhaglen gyfalaf. Yn gyntaf, sefyllfa alldro blwyddyn ariannol 2019/20 a'r effaith ar y rhaglen gyfalaf oherwydd y llithriad a ddigwyddodd. Yn ail, yr ychwanegiadau i'r rhaglen gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet.

Alldro cyfalaf 2019/20
Yn ystod 2019/20 bu gwariant cyfalaf mawr o £31m ar nifer o brosiectau pwysig ledled Casnewydd gan gynnwys cwblhau Band A a pharhad Band B rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ogystal â rhaglen gynnal a chadw sylweddol mewn nifer o ysgolion. Cefnogwyd mentrau adfywio yng nghanol y ddinas gan gynnwys swyddfeydd yn yr hen swyddfa ddidol yn Stryd y Felin , a Thŵr y Siartwyr, cyflwyno biniau llai oedd wedi gwella cyfraddau ailgylchu, a buddsoddi mewn arbed ynni gan gynnwys prosiect goleuadau strydoedd LED. Byddai nifer o'r prosiectau hyn yn cael eu cwblhau dros weddill y rhaglen, fydd yn rhedeg tan 2024/25.

Amlygodd sefyllfa alldro 2019/20, er bod cyllidebau wedi eu hail-broffilio yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol, fod cryn lithriad ar ôl ar ddiwedd y flwyddyn, sef £8.5m, a bod hyn yn golygu na ddigwyddodd y gwariant oed di fod i ddigwydd yn 2019/20 a bod y gyllideb wedi ei "threiglo ymlaen" neu ei llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Yr oedd yn bwysig nodi fod a wnelo llawer iawn o'r llithriad a chynlluniau oedd yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd, felly ni ddylid tybio nad oedd angen y gyllideb hon - byddai'r gwariant yn dod yn nes ymlaen. Yr oedd hyn yn cael ei ganiatáu (ac eithrio am grantiau oedd â chyfyngiad amser) o fewn y rheoliadau.

Er hynny, nid oedd llithriad o help wrth fodelu am reoli'r trysorlys nac at ddibenion cyllido cyllideb gyfalaf. Yr oedd yn bwysig felly fod penaethiaid gwasanaeth yn adolygu eu prosiectau cyfalaf yn rheolaidd ac yn cyfoesi proffil gwariant y gyllideb pan oeddent yn ymwybodol o newidiadau.

Yn ogystal â'r llithriad, yr oedd tanwariant bychan ar nifer fach o brosiectau a gwblhawyd, sef ychydig dros £400k.

Amlinellwyd y prif amrywiadau o'r gyllideb yn yr adroddiad, ac yr oedd y llithriad wedi digwydd ar draws sawl maes gwasanaeth, heb fod yn unigryw i un maes. Bydd angen adolygu'r rhaglen yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ac ail-broffilio cyllidebau prosiectau unigol yn unol â phroffiliau gwario a chyflawni mwy realistig. Byddai'r adroddiad monitro cyfalaf nesaf i'r Cabinet yn cynnwys rhaglen wedi ei diweddaru fydd yn adlewyrchu hyn.

Newidiadau i'r rhaglen a gymeradwywyd
Cyn yr adroddiad hwn, yr oedd gan y Cyngor eisoes raglen gyfalaf hyd at 2024/25, ac yr oedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at ychwanegiadau pellach i'r rhaglen o fwy na £16m sy'n dod â'r rhaglen gyfan i £202m.

Yr oedd yr holl ychwanegiadau a ddangoswyd yn nhabl yr adroddiad yn helaeth, ond dyma rai o'r prif rai:
- £3.3m yn ychwanegol i Ysgol Basaleg yn ychwanegol at gyllid Adran 106 ar gyfer for Band B
- £2.1m o Grant Cynnal Addysg gan Lywodraeth Cymru
- £970k o gyllid Menter Adfywio wedi'i Dargedu i helpu gydag ail-ddatblygu canol y ddinas
- £1.75m o fuddsoddiad i adleoli'r orsaf wybodaeth yn ôl penderfyniad blaenorol y Cabinet.

Gyda'r rhan fwyaf o'r ychwanegiadau, llwyddodd y Cyngor i sicrhau cyllid allanol i'r prosiectau trwy grantiau Llywodraeth Cymru neu arian Adran 106; yr oedd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn dal yn fforddiadwy, gan adeiladu ar yr ymrwymiadau cyfalaf helaeth a wnaeth y Cyngor eisoes.

O'r £16m, talwyd am £2.4m trwy fenthyca, oedd yn cael effaith ar arian rhydd y Cyngor fel yr esbonnir yn fanylach yn nes ymlaen.

Mae manylion llawn y newidiadau i'r rhaglen, gan gynnwys llithriad ac ychwanegiadau, yn Atodiad A yr adroddiad a gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r newidiadau hyn.

Arian Cyfalaf Rhydd
Dywedodd yr Arweinydd fod gan Gynllun Ariannol Canol Tymor y Cyngor gyllidebau refeniw oedd yn caniatáu lefel o "arian rhydd" i dalu am wariant cyfalaf pellach o fenthyca. Yr oedd angen defnyddio £2.4m yn ychwanegol o'r arian rhydd, ac yn ystod 2019/20, gallodd y Cyngor roi grantiau yn lle benthyca oedd gynt wedi ei ymrwymo, fel bod gwerth £20.7m o arian rhydd.

Er bod hyn yn swnio'n gryn swm, yr oedd yn bwysig nodi fod nifer o alwadau ar gyfalaf y Cyngor, ac mai hawdd iawn fyddai defnyddio'r lefel hon o arian rhydd. Byddai'r uwch-swyddogion felly yn adolygu'r rhaglen gyfredol, galwadau cyfalaf y dyfodol, a'r effaith ar y gyllideb refeniw dros y misoedd nesaf, ac yn adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion am y rhaglen gyfalaf y dyfodol.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar y derbyniadau cyfalaf sy'n rhan o'r arian rhydd. Ar hyn o bryd, yr oedd gwerth £4.4m o dderbyniadau cyfalaf heb eu hymrwymo yn yr arian rhydd.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Yr oedd y Cynghorydd Davies yn gwerthfawrogi'r cyllid i Barc Beechwood a chroesawodd hefyd yr amrywiad yn y gyllideb i'r rhaglen cerbydau newydd a chyfraniad y Cyngor at gyrraedd allyriadau dim carbon yn unol â'r llywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru.

Yr oedd y Dirprwy Arweinydd hefyd yn cefnogi'r rhaglen o gael cerbydau newydd ac yn falch o ddweud wrth y Cabinet fod cerbyd gwastraff trydan yn cael ei brynu.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn pleidleisio a chytuno i'r isod:
? Cymeradwyo'r newidiadau i'r rhaglen gyfalaf gan gynnwys y llithriad a'r ychwanegiadau a nodi'r ail-broffilio a ddaw yn sgil hyn.
- Nodi'r adnoddau cyfalaf sydd weddill, h.y., yr arian rhydd
- Nodi'r sefyllfa alldro cyfalaf am 2019/20
- Nodi'r balans a chymeradwyo dyrannu derbyniadau cyfalaf

6 **Canlyniad Rheoli'r Trysorlys 2019/20**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, oedd yn rhoi manylion am weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor am 2019/20. Adroddiad ydoedd oedd yn edrych yn ôl, gan gadarnhau fod yr holl fenthyca a'r buddsoddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol yn ddisgwyliedig ac yn unol â'r terfynau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor llawn. Yr oedd hefyd yn cadarnhau fod Dangosyddion Cynghorus 2019/20 o ran rheoli trysorlys hefyd wedi eu hateb yn ôl yr hyn a osodwyd gan y Cyngor.

Strategaeth bresennol y Cyngor yw cyllido gwariant cyfalaf trwy leihau buddsoddiadau, yn hytrach na benthyca o'r newydd lle y gall, megis gohirio benthyciadau newydd tymor-hir a chyllido gwariant cyfalaf o adnoddau arian y Cyngor ei hun, sef arian wrth gefn yn bennaf. Trwy ddefnyddio'r strategaeth hon gallai'r Cyngor ddal llai o arian ar adeg pan oedd risg gwrthbartion yn gymharol uchel, yn enwedig gyda'r oblygiadau economaidd presennol yn ystod Covid-19.

Yr oedd lefel y benthyca mewnol tua £87m, a thrwy ddefnyddio'r strategaeth hon, amcangyfrifwyd fod y Cyngor wedi arbed tua £2.6m mewn cost refeniw ar sail y cyfraddau llog cyfredol.

Yr oedd lefel benthyca mewnol y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 yn dal yn sylweddol, ar £166m, ac ni wnaiff hyn ond cynyddu dros y blynyddoedd i ddod wrth i'n gallu i fenthyca'n fewnol ostwng fel mae'r arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio.

O'r £166m hwn, yr oedd yn bwysig nodi y benthycwyd £15m yn ychwanegol fel y gallai'r Cyngor fod ar y blaen wrth gefnogi'r ymateb i Covid-19 a gweinyddu grantiau i fusnesau yng Nghasnewydd, cyn derbyn arian Llywodraeth Cymru.

Yr oedd balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2020 yn £12.5m, gan ddwyn y benthyca net i £153.8m; yr oedd hyn yn gynnydd o £17.2m ers llynedd. Dylid nodi y bydd y Cyngor yn cadw

isafswm balans buddsoddiad er mwyn bodloni gofynion bod yn gorff proffesiynol at ddibenion cydymffurfio.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi manylion am fuddsoddiadau heb fod yn rhai trysorlys, yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru; y mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau mewn eiddo mewn perchenogaeth uniongyrchol fel unedau masnachol a diwydiannol, benthyciadau i fusnesau a landlordiaid lleol, a chyfranddaliadau mewn is-gwmnïau, sef Trafnidiaeth Casnewydd. Cyfanswm gwerth y buddsoddiadau hyn ar 31 Mawrth 2020 oedd £14.5m.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Ategodd y Cynghorydd Harvey ddiolchiadau'r Arweinydd i swyddogion am eu gwaith caled. Cysylltwyd ag Aelodau gan fusnesau yr effeithiodd Covid arnynt ac yr oeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith fod swyddogion wedi gwneud cymaint i fusnesau yng Nghasnewydd.

Soniodd y Cynghorydd Rahman hefyd fod Maendy wedi dioddef, ond oherwydd gweithredu sydyn gan y Cyngor, derbyniodd llawer o fusnesau bach a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gymorth ariannol, ac y mae'r adferiad yn digwydd yn araf. Yr oedd busnesau yn ardaloedd cynghorau eraill yn gofyn sut y gweithredodd Cyngor Dinas Casnewydd mor gyflym, a'r rheswm oedd bod Casnewydd wedi edrych ymlaen. Diolchodd y Cynghorydd Rahman i'r Arweinydd a'r swyddogion am ymateb mor sydyn ar ddechrau pandemig Covid, yn ogystal â helpu trigolion oedd yn cysgodi.

Penderfyniad:
Cytunodd y Cabinet y gallai'r adroddiad fynd i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo.

7 **Mai Monitor Cyllideb Refeniw**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad cyllideb mis Mai, sef rhagolwg cyntaf y flwyddyn, ac amlygodd y materion ariannol allweddol oedd yn codi o bandemig Covid-19 a'r effaith y gall hyn gael ar gyllideb refeniw 2020/21.

Yr oedd yn bwysig nodi yn ystod yr amseroedd digynsail hyn fod llawer o ansicrwydd ynghylch codi'r clo, a pha fesurau fyddai'n rhaid eu rhoi ar waith fyddai'n cael effaith ar awdurdodau lleol. Felly, bu'n rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau o fewn y rhagamcanion, gan gynnwys rhai am fwy o arian gan Lywodraeth Cymru, gwariant yn y dyfodol, ac adfer incwm.

Yn chwarter cyntaf y pandemig, cymerodd y Cyngor gamau sylweddol i ymateb, gyda gwasanaethau yn symud i fodel o gyflwyno gwasanaethau hanfodol craidd i'r mwyaf bregus a'r rhai yr oedd y firws yn fwyaf o fygythiad iddynt.

Yn ystod y chwarter cyntaf, wynebodd y Cyngor gryn gostau wrth gyflwyno'r gwasanaethau hyn, ond hyd at ddiwedd Mehefin, talwyd am y gwariant hwn i raddau helaeth trwy gefnogaeth ariannol cronfa galedi Llywodraeth Cymru. Yr oedd y gronfa yn ymdrin â grwpiau penodol fel digartrefedd, darparu prydau ysgol am ddim, darparwyr gofal cymdeithasol, ac yr oedd cronfa gyffredinol hefyd ar gyfer llywodraeth leol i gefnogi'r ymateb i Covid-19. Gwnaeth y Cyngor ei hawliad terfynol ym Mehefin, a gwerth hawliad Casnewydd am y chwarter yn fwy na £7m.

Er hynny, yr oedd nifer o bwysau ariannol fyddai'n parhau yn ystod y pandemig hwn, gan gynnwys costau ychwanegol i gynnal ein trigolion bregus ac i gynnal gwasanaethau craidd, a cholli incwm oherwydd y pandemig.

Yr oed dy rhain yn ychwanegol at heriau eraill sy'n wynebu cyllidebau'r Cyngor gan gynnwys gorwariant ar wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, cyflwyno arbedion (yr

effeithiodd y pandemig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt) a hefyd effaith gorwario cyson ar gyllidebau ysgolion.

Yr oedd y sefyllfa ym Mai yn rhagweld gorwariant am y flwyddyn ariannol o £5.4m; gan ragdybio fod y gyllideb refeniw wrth gefn wedi ei hymrwymo'n llawn, byddai hyn yn gostwng i £4m petai arian wrth gefn yn dal ar gael ar ddiwedd y flwyddyn. Y mae hyn yn orwariant sylweddol yn erbyn y gyllideb ac yn adlewyrchiad o'r her y mae'r Cyngor yn dal i wynebu yn ei ymateb i'r pandemig.

Mae'r prif feysydd gorwariant sy'n cyfrannu at y sefyllfa yn cynnwys y costau anorfod canlynol oedd yn parhau y tu hwnt i'r chwarter cyntaf, a lle nad oedd rhagdyb y byddai Llywodraeth Cymru yn  ad-dalu £1.7m: £3.7m o golli incwm oherwydd y pandemig; tua £400k o feysydd gwasanaeth a arweinir gan y galw yn gorwario mewn gofal cymdeithasol; £1.1m o arbedion heb eu cyflwyno yn 2020/21 a rhyw £840k o orwariant ysgolion.

Fel yr amlygwyd yn gynharach, ychwanegodd y sefyllfa bresennol haen o gymhlethdod ac ansicrwydd i'r rhagolygon, ac y mae angen gweithio trwy hyn. Bydd y rhagolygon yn cael eu cyfoesi trwy gydol y flwyddyn wrth i fwy o sicrwydd ddod ynghylch y gofynion o ran adfer, a'r cyllid sy'n gysylltiedig â hyn.

Rhagwelwyd y gall fod manteision ac anfanteision i'r rhagolygon cyfredol. Y fantais yw yn gyntaf, nad oes unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi ei gynnwys am golli incwm yn chwarter un. Er bod LIC wedi cyhoeddi bod swm wedi ei neilltuo i'r diben hwn i Gymru gyfan, ni chafwyd cadarnhad o sut y byddai hyn yn cael ei ddosbarthu, na'r swm terfynol fyddai ar gael i Gasnewydd. Yn ail, gall mwy o gefnogaeth ddod gan LIC am gostau a cholli incwm yn chwarter dau a thu hwnt.

Gall mwy o risgiau ymddangos yn y rhagolygon i waethygu'r sefyllfa, gan gynnwys cynnydd yng nghostau cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor wrth i'r dirwasgiad economaidd frathu ac i nifer yr hawlwyr godi. Byddai'n rhaid i wasanaethau ddal i weithio trwy'r rhagolygon yn fanwl i weld beth fydd yr effaith ar yr ymateb i'r pandemig.

Costau parhaus anorfod y tu hwnt i chwarter un.
Mewn gofal cymdeithasol, er bod disgwyl y byddai mwy o gostau y tu hwnt i chwarter un, y disgwyl ar hyn o bryd yw y bydd LIC yn dal i dalu amdanynt.

Er hynny, yr oedd dau brif faes lle cynhwyswyd rhagolygon y byddai costau'n cynyddu'n sylweddol y tu hwnt i chwarter un, sef Gwastraff a Glanhau, a Thai, gan gynnwys Digartrefedd. Cyfrannodd y rhain yn agos at £1.6m o gyfanswm y costau anorfod at y dyfodol.

Amlinellwyd y rhagdybiaethau allweddol am bob un o'r prif feysydd costau a chyllid ymhellach yn yr adroddiad.

Colli incwm
Gallai'r incwm a gollir fod yn sylweddol, gydag amcangyfrif o £3.7m am y flwyddyn, gyda cholled yn chwarter un o £2m.
Y prif feysydd a welodd yr effaith yw cyfraniadau gan gleientiaid am wasanaethau dibreswyl fel canolfannau dydd, cryn effaith ar wasanaethau gwastraff o ryw £1m, a cholli llawer o incwm o wasanaethau parcio o fwy na £700,000 a ffioedd gadael gorsafoedd bysus o £320k.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod £78m ar gael i wneud iawn am incwm a gollwyd ledled Cymru, ond ni wyddom eto am y dull dyrannu, ac felly ni wyddom faint gaiff Casnewydd o'r gronfa hon. Cydnabuwyd fod y Cyngor yn darlunio'r gwaethaf o ran colli incwm, ac y byddai unrhyw arian gan LIC yn gwella'r sefyllfa a ragwelwyd.

Gorwario ar gyllidebau

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae pwysau yn dal i fod ar wasanaethau a arweinir gan y galw, yn enwedig gofal cymdeithasol, ar waethaf buddsoddiadau mawr yn y cyllidebau dros y blynyddoedd a aeth heibio. Gyda maethu annibynnol plant, gwnaethom fuddsoddi £382,000 yn y gwasanaeth yn 2020/21, ond y mae nifer y lleoliadau yn dal yn uchel, a rhagwelir gorwariant ar y gwasanaeth o £419,000.

Yr un oedd yr hanes gyda gofal cymdeithasol oedolion, lle gwnaethom fuddsoddi £1.4m yn y gyllideb gofal yn y gymuned yn 2020/21, i dalu am orwariant a welwyd yn 2019/20 yn unol â'r galw disgwyliedig. Ond parhau i orwario a wnaeth y gwasanaeth o £298,000, a hyn i'w briodoli i beidio â chyflwyno arbediad oherwydd Covid-19.

Peidio â chyflwyno arbedion
Yn y rhagolygon yr oedd arbedion nas cyflwynwyd o £1.5m, gyda £1.1m yn gysylltiedig â thargedau 2020/21 a £400,000 arall yng nghyswllt arbedion heb eu cyflwyno o flynyddoedd blaenorol. Effeithiwyd ar lawer o'r rhain gan bandemig Covid-19, a achosodd oedi cyn gallu arbed. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr oedd disgwyl y byddai oedi gyda'r arbedion ond y buasent yn cael eu cyflwyno yn y diwedd, felly er eu bod yn cael effaith ar ragolygon 2020/21, buasem yn disgwyl i'r gwasanaethau gyflwyno'r arbedion rhag effeithio ar y blynyddoedd i ddod.

Sefyllfa'r ysgolion
Bu'r sefyllfa yn yr ysgolion yn heriol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gorwariant ar draws y sector yn gostwng lefel balansau'r ysgolion i gyfanswm o £1.1m ddiwedd llynedd. Ar waethaf cryn fuddsoddi yn y gyllideb yn 2020/21, yr oedd y rhagolygon am sefyllfa ariannol ysgolion yn dal i fod yn broblem, gyda gorwariant o £1.9m yn cael ei ragweld am 2020/21. Gydag arian wrth gefn o £1.1m, mae hyn yn gadael gorwariant net i'r Cyngor ei dalu o ychydig dros £800,000.

Yr oedd y timau addysg a chyllid yn gweithio'n agos gydag ysgolion ar eu cynlluniau i adfer y diffyg, ond nid oedd yn debygol y byddai lefel y gorwariant yn cael ei ddatrys yn y flwyddyn ariannol hon o gofio rhai o'r symiau mawr o ddiffyg hanesyddol oedd wedi cronni.

Cymeradwyodd y Cabinet gyllid ychwanegol yng nghyllideb 2020/21 i dalu am rywfaint o allu dadansoddi ac uwch-arweinyddiaeth i ateb yr her hon. Mae'r sefyllfa bresennol wedi oedi recriwtio hyd yma, ac ni fu hyn o gymorth, ond yr oedd yn anorfod. Mae'r swyddogion presennol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol a'r Pennaeth Cyllid yn gweithio ar hyn. Bydd gwaith manwl ar y sefyllfa yn cael ei gwblhau, a chaiff ei ystyried yn fuan.

Lefel yr arian wrth gefn
Yng nghyd-destun y cyfan o'r uchod, rhaid i ni ddefnyddio'r arian wrth gefn sydd gennym yn gyffredinol. Yr oedd ein rhagfynegiadau yn tybio, yn unol â'r defnydd a gynlluniwyd, y byddai'r Cyngor yn defnyddio rhyw 16% o'r arian wrth gefn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys talu am y gorwariant y manylir arno yn yr adroddiad hwn.

Yr oedd gan y Cyngor lefel dda o arian wrth gefn ac er bod y rhan fwyaf wedi'i glustnodi, yr oedd modd ei ddefnyddio fel dewis olaf i liniaru gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn. Petai hyn yn digwydd, yna efallai ni fyddai prosiectau yn y dyfodol yn gallu digwydd. O ddefnyddio arian arall wrth gefn, byddai'n rhaid gwneud darpariaeth yn y gyllideb i 'ad-dalu' hyn, gan roi mwy o bwysau am CATC y Cyngor. Nid oes ateb hawdd trwy ddefnyddio arian wrth gefn, ac fe fydd yn cael effaith, ond y mae'r arian yno fel dewis olaf.

I grynhoi, mae'n amlwg fod y Cyngor yn wynebu cryn bwysau ariannol oherwydd y pandemig, ac er bod ansicrwydd a rhagdybiaethau yn yr adroddiad, gall y rhain fod yn fanteisiol ac yn anfanteisiol i sefyllfa'r dyfodol. Yr oedd lefel y cyllid fyddai'n parhau ar ôl chwarter un ac a fyddai'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn

gwella'r sefyllfa hon, a rhaid i'r meysydd gwasanaeth sicrhau fod gwariant ychwanegol yn canoli ar gostau anorfod cefnogi'r Cyngor a'r trigolion.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Dywedodd y Cynghorydd Rahman, dan yr amgylchiadau, y byddai ansicrwydd am y gyllideb a'r dyfodol, ond fod y Cyngor yn awdurdod trugarog ac y byddai help ar gael i drigolion Casnewydd. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith fod y cyngor yn wynebu colli incwm, ac eisoes wedi torri £5-6M dros y blynyddoedd diwethaf. Rhaid i bobl Casnewydd ddeall fod y cyngor hefyd yn wynebu trafferthion, ond y byddwn yno i helpu trigolion Casnewydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at yr effaith ar gynllun gostwng Treth y Cyngor o ganlyniad i Covid. Gallai pobl fod yn gymwys i wneud cais am hyn, a dylent gysylltu â'r cyngor i weld a oeddent yn gymwys. Pwysleisiodd fod yn rhaid i ni gefnogi'r trigolion er mwyn sicrhau bod aelwydydd yn cael incwm ychwanegol hyd yn oed os oedd y cyngor hefyd yn wynebu trafferthion.

Gobeithiai'r Cynghorydd Truman y byddai brechlyn ar gael yn fuan, ond y byddai'r cyngor yn wynebu costau am nifer o flynyddoedd i ddod. Bu staff y Cyngor yn wynebu risg yn ystod y pandemig ac yr oedd y Cynghorwyr yn sylweddoli hyn. Er mwyn i'r cyngor barhau i redeg, yr oedd angen cyllid digonol gan lywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru er mwyn cael yr adnoddau digonol i gynnal gwasanaethau.

Cytunodd y Dirprwy Arweinydd fod hyn yn broblem ledled Cymru ac y cynhyrchwyd llawer o wastraff. Yr oedd yn bwysig felly cofnodi diolch i Wasanaethau'r Ddinas, y tîm gwastraff a Waste Savers. Agorwyd y Ganolfan Ailgylchu ym Maesglas gyda system archebu electronig, oedd wedi derbyn llawer o sylwadau cadarnhaol gan y trigolion.

Adleisiodd y Cynghorydd Harvey sylwadau ei chydweithwyr, gan ddweud fod Waste Savers a'r tîm gwastraff yn gweithio'n wirioneddol galed bob wythnos. Dywedodd fod gan Gyngor Dinas Casnewydd y staff gorau oll, oedd yn ymdrechu i ddod drwy'r pandemig hwn, a bod eu hymdrechion, waeth pa mor fach yn wedi cael cryn effaith. Yr oedd arian yn dynn, ac yr oedd pryder y byddai'r llywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru yn gosod cosbau ar fudd-daliadau, a phe na byddai modd rhoi systemau ar waith tan 10 Awst, y gallai problem godi.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid gan yr Arweinydd i roi diweddariad am y sefyllfa ariannol bresennol. Cyhoeddodd y Pennaeth Cyllid fod newidiadau i'r adroddiad o ran cefnogaeth LlC; yr oeddent wedi neilltuo £78M ar gyfer colli incwm, a chytunwyd sut i'w ddosbarthu, oedd yn golygu y dylai'r cyngor dderbyn £800,000 yn y rhandaliad cyntaf. Ni phenderfynwyd eto ar y gweddill, ond y disgwyl oedd y byddai swm arall yn cael ei dderbyn, oedd yn gam yn y cyfeiriad iawn. Cadarnhawyd arian LlC am gost gofal cymdeithasol, a bydd yn rhaid i ni aros tan ddiwedd yr ail chwarter cyn cael syniad beth fyddai'n digwydd i'r cynllun gostyngiad treth y cyngor.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pennaeth Cyllid am ei ddiweddariad a diolch hefyd am ei arweiniad yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn pleidleisio a chytuno i'r isod:

- Nodi'r sefyllfa gyffredinol rhagolygon y gyllideb a'r gorwariant sylweddol mewn meysydd gwasanaeth yn deillio yn bennaf o'r pandemig, a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â rhai problemau
- Nodi'r rhagdybiaethau cynllunio yn y sefyllfa a ragwelir, ac yn benodol yr ansicrwydd ynghylch (i) yr effaith barhaus a gaiff Covid ar feysydd gwasanaeth a (ii) y cyllid fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) tu hwnt i chwarter un y flwyddyn ariannol
- Nodi lefel yr arbedion nas cyflwynwyd ym mhob cyfarwyddiaeth, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn;

- Nodi'r symudiadau a ragwelir yn yr arian wrth gefn

? Nodi'r heriau ariannol sylweddol iawn sy'n wynebu ysgolion a'r effaith ddifrifol a gaiff hyn ar gyllidebau refeniw eraill y Cyngor a'r arian wrth gefn. Nodi'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd a sylwadau'r PC am ddifrifoldeb y sefyllfa hon.

8 **Adferiad Ysgolion**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn dweud y gofal plant i blant gweithwyr hanfodol a phlant bregus ar gael ers i'r ysgolion gau ym Mawrth. Mae hyn wedi digwydd ochr yn ochr ag agor ysgolion yn rhannol i ddysgwyr eraill ers 29 Mehefin.

Bu cynllunio ar y cyd rhwng swyddogion a phenaethiaid yn effeithiol iawn er mwyn datblygu dealltwriaeth o broblemau ac ymdrin â hwy mor fuan ag sydd modd.

Nid yw myfyrwyr wedi sefyll arholiadau eleni, felly bydd eu graddau yn yr haf yn seiliedig ar waith cwrs a'r graddau a ragwelir gan athrawon.

Cafodd ysgolion eu herio gan deuluoedd am gadw at gyngor Llywodraeth Cymru a pheidio â chymysgu 'swigod' o blant rhwng lleoliadau ac ynddynt. Rhoddwyd hyn ar waith yn unol â chyngor arbenigol i amddiffyn plant, staff a'r gymuned yn ehangach.

Mae tua 5400 o blant a phobl ifanc ledled Casnewydd yn dal i gael eu cefnogi gan y cynllun Prydau ysgol am Ddim (PYaDd). Wedi cau'r ysgolion ym Mawrth, datblygwyd y cynllun o ddarparu cinio i'w gasglu o'r ysgol i gynllun talebau yn cael eu hanfod yn uniongyrchol at deuluoedd.

Mae'r GCA wedi gweithio gydag ysgolion i gefnogi datblygu rhaglen effeithiol o ddysgu cyfun, oedd yn cefnogi dysgwyr mewn darpariaeth gofal plant, dosbarthiadau galw heibio, a'r sawl sydd heb eto ddychwelyd i'r ysgol.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i ddweud gair am yr eitem hon.

Hysbysodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau y Cabinet, ymhen dyddiau o gau'r ysgolion ym Mawrth fod nifer sylweddol o hybiau gofal plant i blant gweithwyr hanfodol a dysgwyr bregus ar waith, ynghyd â darparu dysgu o bell. Hefyd, yr oedd ysgolion yn cefnogi disgyblion oedd yn trosi i'r ysgol uwchradd ac i gyfleoedd ôl-16.

Yr oedd cyfanswm o 36 hwb gofal plant ar gael ar hyd y ddinas, fel bod modd mynd at ofal plant yn y gymuned. Ers i'r ysgolion ail-agor ar 29 Mehefin, yr oedd rhyw 400 o blant wedi parhau i ddod i ofal plant bob dydd, fel y gallai gweithwyr hanfodol fynd i'w gwaith. Yr oedd yn heriol i ysgolion ddarparu'r gwasanaeth hwn ac ar yr un pryd gynnig i blant eraill y gallu i ddod i'r ysgol i ddal i fyny gyda staff yr ysgol, a dilyn eu hasesiadau risg oedd yn hyrwyddo diogelwch pawb ar y safle.

Yr oedd nifer o feysydd allweddol eto i ymdrin â hwy. Yr oedd darparu cludiant i'r ysgol, a glynu yr un pryd at reolau ymbellhau cymdeithasol, yn gryn her, yn enwedig i'r dysgwyr hynny oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng-Cymraeg, arbennig a Chatholig. Er bod peth cludiant ar gael, byddai angen mwy erbyn tymor yr hydref.
Rhoddwyd bron i 800 o ddyfeisiadau digidol a rhyw 1260 o unedau MiFi i deuluoedd i gefnogi dysgu o bell. Hefyd, sefydlwyd rhwydwaith wifi ysgolion i ganiatáu i blant a phobl ifanc ddod â'u dyfeisiadau eu hunain i'r ysgol (BYOD). Mae adeiladu ar y llwyddiant hwn yn dal yn flaenoriaeth.

Nid oedd presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn orfodol pan agorodd yr ysgolion ar 29 Mehefin, ac yr oedd presenoldeb mewn ysgolion unigol yn amrywio o ryw 30% i 90%.

Ar 9 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion yn dychwelyd yn llawn erbyn canol Medi, gyda phellter cymdeithasol cyfyngedig o fewn grwpiau cyswllt.

Pan fydd ar waith yn llawn, dylai grŵp cyswllt gynnwys rhyw 30 o blant. Byddai peth cymysgu uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng plant mewn gwahanol grwpiau cyswllt hefyd yn anorfod, fel ar gludiant, cael gwersi arbenigol, neu oherwydd cyfyngiadau staffio.

Dylai cadw pellter cymdeithasol i oedolion i aros yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau. Dylai pob ysgol barhau i fod wedi eu "Diogelu rhag Covid" – wedi cynnal asesiadau risg a'u lliniaru gyda chyfuniad o gamau rheoli fel hylendid dwylo ac arwynebau, systemau unffordd ac ati.

Petai gwybodaeth am rybuddion cynnar yn dangos digwyddiadau neu achosion lleol, yna dylai ysgolion gerllaw roi mesurau cyfyngu priodol ar waith. I brofi ac olrhain yn effeithiol, bydd pob ysgol yn cael cyflenwad o gyfarpar profi cartref.

Blaenoriaeth yn awr fydd gweithio gyda'n cymunedau i ennyn eu hyder i gael cynifer o ddysgwyr ag sydd modd yn ôl yn yr ysgol.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Cyfaddefodd y Cynghorydd Rahman ei fod yn pryderu ar y dechrau am ail-agor ysgolion a sut yr effeithiwyd ar y grŵp BAME gan Covid 19. Fodd bynnag, gwnaeth ymateb yr athrawon a'r holl Wasanaethau addysg i ail-agor ysgolion argraff fawr arno, ac yr oedd am gyfleu ei ddiolch i bawb ac i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau. Y fantais arall o ail-agor ysgolion oedd ei fod wedi gwella iechyd meddwl plant a allai fynd at y gofal a'r gefnogaeth fugeiliol oedd ar gael gan athrawon, yn enwedig i ddisgyblion fu'n gorfod ymdopi â phrofedigaeth. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rahman at y gefnogaeth a ddarparwyd i ddysgwyr a eithriwyd yn ddigidol, a'r ymdrechion rhyfeddol i adnabod a chysylltu â'r teuluoedd hynny nad oedd ganddynt y cyfleusterau i gyrchu dysgu rhithiol. Yn anffodus, teimlai'r cynghorydd fod hyn hefyd wedi tynnu sylw at ardaloedd o dlodi yng Nghasnewydd, a theimlai fod gwir angen buddsoddi mewn teuluoedd oedd yn cael trafferthion.

Yr oedd y Cynghorydd Truman wedi ei ryfeddu gyda'r hybiau gofal plant a osodwyd yn eu lle ar ddechrau'r clo, a theimlai fod ymateb cyflym y staff yn dangos Casnewydd ar ei orau. Yr oedd gwaith y gwirfoddolwyr a'r staff yn rhedeg yr hybiau yn eithriadol.

Cytunodd y Dirprwy Arweinydd fod gwir angen diolch, ac ategodd farn y Cynghorydd Rahman am ei bryderon cychwynnol am ail-agor ysgolion. Er hynny, bu'r Dirprwy Arweinydd yn ymweld yn ddiweddar ag Ysgol Gynradd St Andrews yn ystod eu paratoadau ar gyfer ail-agor. Yr oedd gwaith caled y staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr wedi tawelu ei ofnau, a gallai weld manteision cael y plant yn dychwelyd i'r ysgol.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Dirprwy Brif swyddog Addysg i wneud ei sylwadau, a chyfleodd ei ddiolchiadau i'r Cabinet, gan ddiolch am eu canmoliaeth; teimlai'n wylaidd o weld gwaith yr ysgolion, athrawon, cymorthyddion dysgu a'r llywodraethwyr am gyd-ymdrechu yn ystod y pandemig. Ychwanegodd fod y Gwasanaethau Addysg yn barod am y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi, a'i fod yn falch o bopeth a wnaeth y Gwasanaethau Addysg.
Penderfyniad:
Pleidleisiodd y Cabinet i gymeradwyo'r Rhaglen Adfer i Ysgolion.

9 **Porth y Gorllewin - Persbectif Casnewydd**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud fod Porth y Gorllewin wedi ei sefydlu ym mis Tachwedd 2019, fel partneriaeth strategol oedd â'r nod o gyflwyno pwerdy economaidd ar hyd coridor yr M4 a'r M5, gan sbarduno twf ar ddwy ochr Afon Hafren. Fel un o bum dinas,

yr oedd disgwyl i Gasnewydd gymryd rhan allweddol yn llwyddiant y bartneriaeth, ac yr oedd disgwyl iddi elwa o'r cydweithredu gwell.

Y mae'r rhanbarth eisoes yn cael ei hystyried fel pwerdy economaidd o bwys, gyda thair dinas-ranbarth, a phob un wedi nodi gwell cysylltedd ffisegol a digidol, sgiliau a lefelau cyflogaeth uwch, ac arloesedd, fel elfennau hanfodol o'u datblygiad a'u ffyniant economaidd yn y dyfodol. Fel rhanbarth, mae gennym GVA uwch y pen na Phwerdy Gogledd Lloegr a Pheiriant Canolbarth Lloegr, ac economi cyn y clo o ryw £107 biliwn, bron i ddwbl yr hyn oedd ym mhartneriaeth flaenorol Dinasoedd y Great Western.

Fel partneriaeth mae gennym bron i 4.4 miliwn o drigolion, tua 160,000 o fusnesau, a rhyw 2.1 miliwn o swyddi. Mae gennym hefyd gysylltedd da gyda thraffyrdd a ffyrdd, 2 faes awyr a 9 porthladd.

Cyhoeddwyd prosbectws sydd wedi ei gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad. Cadarnhaodd fod Porth y Gorllewin yn 'sbarduno Prydain wyrddach, decach a chryfach.' Yr oedd tri phrif uchelgais yn canoli ar gysylltedd, bod yn borth byd-eang, ac arloesedd, ac yr oedd y rhain oll yn cyd-fynd â dyheadau Casnewydd am dwf economaidd.

O ran cysylltedd, gallai trigolion a busnesau Casnewydd elwa o wasanaethau cyflymach ac amlach i Lundain, cyswllt uniongyrchol â Heathrow a dinasoedd craidd, a thocyn clyfar Porth y Gorllewin i ganiatáu teithio'n gyflymach o gwmpas y rhanbarth yn yr 'awr aur'. Yr oedd ymrwymiad i ddarparu mwy o bwyntiau gwefru trydan ar hyd yr M4 a M5 a rhaid i ni fod yn rhan o'r dyhead i fod y rhanbarth gyda'r cysylltedd digidol gorau yn y DU.

Fel porth byd-eang, yr oedd potensial mawr i gyflwyno strategaeth fyddai'n canoli ar fasnach, buddsoddi, rôl y porthladdoedd a'r meysydd awyr, a'r economi ymwelwyr.

O ran arloesedd, y mae gan y rhanbarth 10 prifysgol a nifer o academïau a chanolfannau arbenigol. Y mae academïau seibr a meddalwedd Casnewydd yn cael eu hystyried yn nodweddion allweddol o'r cynnig arloesedd, a byddai cyswllt â chanolfannau arloesedd eraill fel Canolfan Arloesedd Manwerthu Digidol y DU yn Cheltenham a Chaerloyw ac Asiantaeth y Gofod y DU yn Swindon yn cynyddu ein gallu i gydweithio gyda chyfleusterau ymchwil eithriadol eraill, a'u hategu.

Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd ar strwythur llywodraethiant y bartneriaeth ac y mae'r grŵp yn gweithio tuag at ffurfioli'r bartneriaeth trwy greu Bwrdd Partneriaeth a Grwpiau Ymgynghorol a gefnogir gan ysgrifenyddiaeth unswydd. Penodwyd Cadeirydd annibynnol, ac y mae Kathryn Bennett o Airbus eisoes yn trafod gyda Llywodraeth y DU am fanteision rhanbarth Porth y Gorllewin.

Comisiynwyd Adolygiad Economaidd Annibynnol fyddai'n rhoi sylfaen o dystiolaeth i ddatblygu polisïau a buddsoddi at y dyfodol, rhywbeth sydd a mwy o frys oherwydd y wasgfa economaidd yn sgil Covid-19.

Yn gyffredinol, yr oedd Porth y Gorllewin yn rhoi cyfle i Gasnewydd fod yn rhan o bartneriaeth strategol gref fyddai'n helpu ein busnesau a'n diwydiannau i gydweithredu a rhannu arloesedd yn rhanbarthol. Ni fyddai mod di ni lwyddo i wneud hyn ar ein pennau ein hunain, ond trwy weithio mewn partneriaeth, fe ddeuai mwy o gyfleoedd a daw uchelgais Casnewydd am dwf economaidd yn fwy cyraeddadwy a realistig.
Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Cafodd y Cynghorydd Mayer argraff dda o'r math o feddwl creadigol oedd yn gyffredin yn Ewrop, ond nid yma. Teimlai mai peth da oedd rheoli ein hardaloedd, a bod y trefniant hwn yn un ffrwythlon.

Teimlai'r Cynghorydd Davies fod ganddi ddiddordeb yn hyn gan i rai aelodau o'i theulu fyw yn y rhan fwyaf o ardaloedd Porth y Gorllewin. Yr oedd yn bwysig ystyried y cyfleoedd a roddai i'n hieuenctid a'r posibilrwydd am swyddi, yn ogystal â rhwyddineb teithio. Yr oedd y Cynghorydd Davies yn ystyried fod buddsoddi yn y tymor hir yn gam cadarnhaol i Gasnewydd.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi ymwneud parhaus Casnewydd â Phorth y Gorllewin

10 **Nodau Adfer Strategol - Trefniadau Llywodraethu a Democrataidd**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad gan ddweud, yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet ar 24 Mehefin, y cytunwyd ar nifer o Nodau Adfer Strategol fyddai'n sail i'r blaenoriaethau corfforaethol wrth i'r Cyngor symud i'r cyfnod adfer yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid-19.

Un o'r ymrwymiadau oedd sicrhau ein bod yn cyflwyno trefniadau llywodraethiant a democrataidd diwygiedig mor fuan ag sydd modd, er mwyn hwyluso dechrau cael cyfarfodydd o bell, i newid y ffordd yr oeddem yn gweithredu, ac yr oedd angen hefyd i aelodau gymryd rhan o bell yn y prosesau democrataidd o wneud penderfyniadau.

Fel gweinyddiaeth, yr ydym wedi llwyr ymrwymo i broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau sydd yn agored, tryloyw ac yn atebol i'r cyhoedd. Golygodd y clo oherwydd Covid-19, fodd bynnag, y bu'n rhaid atal pob cyfarfod pwyllgor ffurfiol ym mis Mawrth a chymryd penderfyniadau dan gynlluniau dirprwy o aelodau a swyddogion. Nid oedd hyn yn golygu y bu diffyg tryloywder nac nad oedd modd craffu a herio penderfyniadau a ddirprwywyd yn ystod y cyfnod hwn. Parhawyd i ymgynghori â'r holl gynghorwyr yn ysgrifenedig ar adroddiadau Aelodau'r Cabinet a chafwyd adroddiadau ysgrifenedig ar benderfyniadau Cynllunio a Thrwyddedu. Hefyd, mae aelodau wedi gallu cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig ar unrhyw adeg yn enwedig ar faterion yn ymwneud â Covid.

Er budd llywodraethu agored, rhaid oedd ail-ddechrau cynnal cyfarfodydd, unwaith i'r gyfraith gael ei newid i ganiatáu gwneud hyn yn ddiogel ac o bell. Yr ydym wedi ymdrechu i wneud hyn mewn dull pragmataidd a graddol, gyda'r pwyslais ar gael pethau'n iawn yn hytrach na rhuthro i drefnu cyfarfodydd rhithiol yn sydyn.

Yr ydym felly wedi galw am adroddiad pellach gyda chynigion am gyflwyno yn raddol gyfarfodydd Cyngor o bell, y protocolau a'r gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer cynnal a rheoli'r cyfarfodydd hyn, a rhaglen hyfforddi a datblygu i aelodau er mwyn gwneud yn siŵr y gallant gyfranogi'n llawn yn y trefniadau llywodraethiant diwygiedig hyn.

Mae'r adroddiad yn gosod allan y cynnig, a gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo a chadarnhau'r trefniadau llywodraethiant a democrataidd diwygiedig a'r protocol arfaethedig o ran cynnal cyfarfodydd o bell.

Er bod hyn i fod i ddigwydd yn ystod y cyfnod wedi adfer o Covid-19, yr ydym yn cydnabod y byddai angen o hyd am hyblygrwydd cyfarfodydd o bell o ran agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth llywodraeth leol. Felly, bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu a'u hail-werthuso. Byddwn am fireinio a gwella'r trefniadau o bell, lle bo hynny'n briodol, ac yn dal i edrych ar welliannau mewn technoleg.

Y cyfarfod hwn heddiw oedd y cam nesaf, gan ei fod yn cael ei ddarlledu'n fyw. Gallai'r wasg a'r cyhoedd glicio ar y ddolen a gyhoeddwyd gydag agenda'r Cabinet i wylio'r trafodaethau trwy'r ffrwd fyw. Gallai'r dechnoleg wedyn gael ei chyflwyno i gyfarfodydd eraill y Cyngor a'r Pwyllgorau.

Yr oedd y blaen-raglen waith yn cynnig ein bod yn cynnal CCB y Cyngor llawn o bell ar 28 Gorffennaf, i ddelio a phenodiadau statudol. Byddai'r gwyliau ym mis Awst yn cael eu defnyddio i gynllunio am ail-gychwyn y pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu o Fedi ymlaen, ynghyd a chyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ym Medi a Hydref.

Byddai hyfforddi a datblygu Aelodau yn hanfodol i lwyddiant y trefniadau llywodraethiant diwygiedig hyn. Anogwyd y cynghorwyr i gael yr hyfforddiant mor fuan ag sydd modd, ac ymwneud yn llawn â'r sesiynau hyfforddi a drefnir gan y timau cefnogi TG a Llywodraethiant.

Byddai'r cyfnod ym mis Awst yn cael ei neilltuo i roi mwy o hyfforddiant i'r aelodau wedi ei deilwrio i anghenion arbennig, ac am bwyllgorau penodol fel Cynllunio a Thrwyddedu a fyddai'n fwy cymhleth oherwydd yr angen i'r cyhoedd gymryd rhan yn y trafodaethau.

Yn olaf, er nad oedd angen i'r Cyngor newid ei Reolau Sefydlog yn ffurfiol i ganiatáu cynnal y cyfarfodydd hyn o bell, argymhellwyd y dylid cytuno ar Brotocol i gynnal cyfarfodydd o bell, er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb, a rhoi canllawiau i gyfranogwyr o ran gweithdrefnau, arferion ac ymddygiad.

Yr oedd awgrym o Brotocol a Gweithdrefn wedi ei osod allan yn Atodiad 2 yr adroddiad. Petai'r Cabinet yn fodlon, awgrymir ein bod yn argymell i'r Cyngor ei fod yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol yn y CCB fel rhan o'r Cyfansoddiad, tan 1 Mai 2021 (pan fydd y rheoliadau am gyfarfodydd o bell yn dod i ben) neu'n gynharach yn ôl penderfyniad y Cyngor.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Teimlai'r Cynghorydd Harvey fod y gwaith i baratoi am y trefniadau adfer wedi dwysau, a bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y swyddogion.

Cytunodd y Cynghorydd Mayer fod hyn yn gam cadarnhaol ymlaen, a soniodd am gyfarfod diweddar o'r Bwrdd Cyd-Wasanaethau Adnoddau (CWA) lle trafodwyd data am ddefnyddio Teams. Cyflwynwyd MS Teams yn Ionawr 2020 ac erbyn Mawrth/ Ebrill, yr oedd Casnewydd o flaen unrhyw un arall o ran defnyddio cyfleusterau MS Teams. I gymharu, dangosodd ffigyrau Torfaen ym Mai/Mehefin, y cynhaliwyd 51,000 o gyfarfodydd MS Teams, yn bennaf gan swyddogion, ac yng Nghasnewydd fod 151,000 cyfarfod wedi eu cynnal trwy MS Teams gyda swyddogion a chynghorwyr, oedd yn dangos fod Casnewydd ar y blaen.

Dywedodd y Cynghorydd Davies fod angen canolbwyntio ar y rhaglen adfer strategol, a chroesawodd ddychweliad cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu dros y misoedd nesaf i graffu'n effeithiol ar benderfyniadau a gymerir ar ran trigolion Casnewydd.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r trefniadau llywodraethiant a democrataidd diwygiedig ar gyfer cyfnod adfer o Covid-19, a chadarnhau'r gweithdrefnau arfaethedig am sut i gynnal cyfarfodydd o bell.

11 **Nodau Adfer Strategol - Trefniadau Llywodraethu a Democrataidd**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, sef trydydd Cynllun Strategol Cydraddoldeb yr awdurdod. Yr oedd y strategaeth hon yn ddatblygiad ar ein cynllun 2016-2020 , gyda mwy o amcanion seiliedig ar ddeilliannau a ddatblygwyd trwy weithio'n agos mewn partneriaeth a gwahanol dimau ar draws yr awdurdod a chydweithio gyda rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.

Mae gan yr Amcanion Cydraddoldeb yn y Cynllun Strategol Cydraddoldeb hwn gymysgedd dda o amcanion mewnol, megis ein hymrwymiadau i wella amrywiaeth ein gweithlu trwy fwy o gamau cadarnhaol, ac amcanion mwy allanol fel ein hymrwymiad i wella cydlyniant

cymunedau ledled y ddinas. Y cydbwysedd hwn o fyfyrio mewnol a chanolbwyntio allanol er mwyn gwella cydraddoldeb mewn ardaloedd allweddol o'n cymdeithas yw cryfder y strategaeth hon ac yr wyf yn hyderus ei bod yn gam cadarnhaol ymlaen i Gyngor Dinas Casnewydd.

Bu'r misoedd a aeth heibio, a'r misoedd i ddod yn sicr, yn rhai heriol, ac wedi datgelu llawer math o anghydraddoldeb strwythurol a chymdeithasol, o brotestiadau byd-eang Black Lives Matter, i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac wrth gwrs, oblygiadau pandemig byd-eang COVID-19. Yr ydym ar groesffordd fel cymdeithas wrth i ni adfer a dysgu o ddigwyddiadau sydd wedi ein cyffwrdd oll, ond a effeithiodd ar grwpiau penodol yn ein cymunedau mor llym.

Cynigiodd yr Arweinydd fabwysiadau'r strategaeth hon, gan ddiolch i'r Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau, David Mayer a'r Cynghorydd Mark Whitcutt am eu cyfraniadau i'r cynllun a'r Grŵp Strategol Cydraddoldeb dros y pedair blynedd a aeth heibio.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan y Cabinet:

Teimlai'r Cynghorydd Mayer fod Casnewydd ar y blaen o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn 2012. Yr oedd hyn wedi paratoi'r ffordd i wreiddio cydraddoldeb yn yr holl wasanaethau. Daeth y problemau a nodwyd yn ystod Covid a hyn i lygad y cyhoedd. Gweithiodd y tîm cydraddoldebau yn galed i wreiddio hyn yn yr adroddiad a diolchodd y Cynghorydd Mayer i'r holl dîm am eu gwaith caled.

Adleisiodd y Cynghorydd Rahman y sylwadau, gan ddweud ei fod yn ddarn pwysig o waith am yr hyn a ddatgelwyd gan bandemig Covid, ac amlygodd y risgiau a'r bregusrwydd i weithwyr rheng-flaen oedd heb ddewis ond bod mewn perygl o ddal Covid er mwyn ennill bywoliaeth i gynnal eu teuluoedd. Mae angen gweithio i ymdrin â hyn, ac yr oedd y Cynghorydd Rahman yn rhan o dasglu oedd yn edrych ar y cysylltiadau cymdeithasol-economaidd yn y gymuned BAME, gyda Llywodraeth Cymru. Gan gadw hyn mewn cof, teimlai fod Casnewydd o flaen LIC yn hyn o beth oherwydd gwaith gwych y swyddogion o'r cychwyn. Cyfeiriodd y Cynghorydd hefyd at y gefnogaeth a roddwyd i bobl ag anableddau yn ogystal â'r rhwydweithiau cefnogi y gymuned LGBTQ+. Yn olaf, diolchodd y Cynghorydd Rahman i'r Arweinydd am ei chyfraniad eithriadol ac i'r swyddogion am eu gwaith caled.

Diolchodd y Cynghorydd Giles i bawb oedd yn gysylltiedig â gwaith y cyngor ieuenctid ac a weithiodd i gefnogi pobl ifanc a bod yn rhan o'r asesiad effaith cymunedol. Aeth ymlaen i ddweud y dylai pobl ifanc Casnewydd ymfalchïo yn yr hyn maent wedi ei gyflawni.

Dywedodd y Cynghorydd Davies fod y staff wedi ymateb i argyfwng Covid trwy ddefnyddio sail o dystiolaeth. Bydd adroddiad ar effaith gymdeithasol-economaidd yr argyfwng yn destun ymgynghori toc, a bydd yn nodi camau penodol ar gyfer y dyfodol.

Soniodd y Cynghorydd Cockeram am bwysigrwydd cynyddu diogelu plant yn ogystal â'r cynnydd mewn camdriniaeth ddomestig yn ystod yr argyfwng, oedd yn broblem ac yn duedd yn y trefi sydd angen ei drin.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb a atodir cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

12 **Rhaglen Waith**

13 **I weld Gwe-ddarllediad Live Cabinet cliciwch ar y ddolen isod:**